Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 07.07.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Diogeliadau amddiffyn rhyddid** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Nid yw’r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** | **Cyflwyniad** |
|---|---|
| Rydym yn croesawu cyflwyno’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid gyda’r estyniad i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed a’r effaith gadarnhaol fwriadedig y dylent ei chael ar ddysgwyr mewn addysg yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ein bod hefyd yn cael ein henwi fel corff sy’n gyfrifol am ddiben monitro Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Rydym yn croesawu’r ymagwedd gryfach hon at gydweithio ag arolygiaethau eraill.<br><br>Mae’r newidiadau o fewn y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn darparu cyfle ystyrlon i wella deilliannau ar gyfer yr oedolion a’r bobl ifanc hynny sy’n cael eu hamddifadu o ryddid, ac yn sicrhau bod pobl sy’n derbyn gofal yn cael cyfleoedd i gyfrannu’n ystyrlon at benderfyniadau a wneir amdanynt trwy broses o arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r newidiadau hyn yn ategu’r diwygiadau ADY sy’n cael eu rhoi ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, trwy osod yr unigolyn yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau a chynyddu ei gyfranogiad yn hyn.<br><br>Ar y cyfan, mae’r rheoliadau a’r canllawiau yn gynhwysfawr ac mae fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau allweddol yn adnoddau buddiol i hyrwyddo dealltwriaeth gadarn o’r newidiadau i bawb. Rydym wedi nodi sut y gellid cryfhau’r canllawiau ymhellach yn ein hymateb i’r cwestiynau unigol isod.<br>Yn gryno, teimlwn y gallai’r meysydd canlynol gryfhau gwybodaeth y ddogfen ymgynghori:<br><br>1. Egluro’r trefniadau trawsffiniol ble caiff unigolyn ei leoli mewn darpariaeth addysgol yng Nghymru o awdurdod lleol yn Lloegr neu’i leoli mewn darpariaeth addysgol yn Lloegr o awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer proses gwneud asesiadau a gwneud penderfyniadau.<br><br>2. Yn Atodiad 2, gellid cryfhau’r canllawiau ar ofynion cymhwyster capasiti trwy ddatgan yn eglur na all aelod o dîm clinigol y cwmni ei hun wneud hyn ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd angen asesiad ar gyfer Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Er mai dyma’r arfer bresennol, rydym yn ystyried y byddai hyn yn achos o wrthdaro buddiannau gan y byddai gan y cwmni fuddiannau ariannol yng ngofal yr unigolyn. | Rhowch naratif byr o’n safbwynt cyffredinol. Wrth gloi, defnyddiwch bwyntiau bwled i amlygu ein prif negeseuon a’n galwadau polisi. |

| | |
|---|---|
| 3. O safbwynt addysgol, byddai ychwanegu rhestr hawdd ei darllen o achosion posibl o amddifadu o ryddid (nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr) y mae angen ei hawdurdodi yn cynorthwyo darparwyr ymhellach i ddeall beth allai amddifadu o ryddid ei olygu i ddysgwyr mewn addysg. Dylai hyn ddarparu cysondeb ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n agored i gael eu hamddifadu ar draws yr holl ddarpariaethau wrth i staff yn y lleoliadau hyn addasu i'r rheoliadau newydd. | |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau i Reoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) (Cymru) 2007 yn amlinellu'n glir ac yn ddigonol swyddogaethau'r Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid?

| | |
|---|---|
| **Cytuno'n Gryf** | x |
| **Cytuno Ychydig** | |
| **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | |
| **Anghytuno Ychydig** | |
| **Anghytuno'n Gryf** | |

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 1, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Mae'r canllawiau'n amlinellu esboniad clir o swyddogaethau'r IMCA o dan y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Mae fersiynau hawdd eu darllen yn Gymraeg ac yn Saesneg yn fuddiol wrth wneud y wybodaeth hon yn hygyrch i bawb. |

**Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Cymhwystra i Gynnal Asesiadau, Gwneud Penderfyniadau a Chynnal Adolygiadau Cyn Awdurdodi) (Cymru) 2022**

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar gynnal asesiadau, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn awdurdodi yn glir a digonol?

| | |
|---|---|
| **Cytuno'n Gryf** | ☐ |
| **Cytuno Ychydig** | x |
| **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | ☐ |
| **Anghytuno Ychydig** | ☐ |
| **Anghytuno'n Gryf** | ☐ |

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 2, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Mae'r canllawiau'n amlinellu esboniad clir o'r broses cyn awdurdodi, penderfyniadau ac asesiadau. Mae fersiynau hawdd eu darllen yn Gymraeg ac yn Saesneg yn fuddiol wrth wneud y wybodaeth hon yn hygyrch i bawb.

Gellid cryfhau'r canllawiau ymhellach trwy egluro'r trefniadau trawsffiniol lle caiff unigolyn ei leoli mewn darpariaeth addysgol yng Nghymru o awdurdod lleol yn Lloegr neu'i leoli mewn darpariaeth addysgol yn Lloegr o awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn Atodiad 2, gellid cryfhau'r canllawiau ar ofynion cymhwyster capasiti trwy ddatgan yn eglur na all aelod o dîm clinigol y cwmni ei hun wneud hyn ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd angen asesiad ar gyfer Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Er mai dyma'r arfer bresennol, rydym yn ystyried y byddai hyn yn achos o wrthdaro buddiannau gyda goblygiadau ariannol posibl.

**Cwestiwn 3**: Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau?

| | |
|---|---|
| **Cytuno'n Gryf** | ☐ |
| **Cytuno Ychydig** | x |

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 3, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Teimlwn fod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r canllawiau ymhellach trwy egluro'r trefniadau trawsffiniol lle caiff unigolyn ei leoli mewn darpariaeth addysgol yng Nghymru o awdurdod lleol yn Lloegr neu'i leoli mewn darpariaeth addysgol yn Lloegr o awdurdod lleol yng Nghymru. |

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft sy'n ymwneud â buddiant ariannol yn darparu'r diogeliadau angenrheidiol ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gofal?

**Cytuno'n Gryf** ☐

**Cytuno Ychydig** x

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 4, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Mae Atodiad 2 yn rhoi canllawiau clir ar fuddiannau ariannol. Gellid cryfhau'r canllawiau ar ofynion cymhwyster capasiti ymhellach trwy ddatgan yn eglur na all aelod o dîm clinigol y cwmni ei hun wneud hyn ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion arbennig annibynnol sydd angen asesiad ar gyfer Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Er mai dyma'r arfer bresennol, rydym yn ystyried y byddai hyn yn achos o wrthdaro buddiannau gyda goblygiadau ariannol posibl. |

**Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Hyfforddiant a Meini Prawf ar gyfer Cael Cymeradwyaeth fel Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy) (Cymru) 2022**

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar rôl a phenodi Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn glir a digonol?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** [ ]

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 5, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Mae'r Rheoliadau drafft ar rôl a phenodi Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn glir a digonol. |

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyflawni rôl y Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** ☐

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 6, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Mae'r Rheoliadau drafft yn galluogi'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i gyflawni rôl Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy. Bydd amodi isafswm nifer o oriau o hyfforddiant blynyddol yn fuddiol ar gyfer sicrhau ansawdd parhaus y gweithlu a dull cyson ledled Cymru. |

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy?

**Cytuno'n Gryf** ☒ x

**Cytuno Ychydig** ☐

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 7, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Credwn fod y trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r Proffesiynolyn Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn addas. |

**Cwestiwn 8:** Mae tri math o hyfforddiant a fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy, sef: hyfforddiant trosi; hyfforddiant cychwynnol; a hyfforddiant pellach. Ydych chi'n cytuno â'r dull cyffredinol a ddefnyddir i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** [ ]

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 8, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Mae'n ymddangos bod yr ymagwedd gyffredinol a ddefnyddir at ddarparu hyfforddiant ar gyfer Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy yn gadarnhaol, a dylai sicrhau cysondeb ac ansawdd y rhai sy'n cyflawni'r rôl bwysig hon.

O safbwynt addysgol, byddai ychwanegu rhestr hawdd ei darllen o achosion posibl o amddifadu o ryddid (nid yw'n rhestr hollgynhwysfawr) y mae angen ei hawdurdodi yn cynorthwyo darparwyr ymhellach i ddeall beth allai amddifadu o ryddid ei olygu i ddysgwyr mewn addysg. Dylai hyn ddarparu cysondeb ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n agored i gael eu hamddifadu ar draws yr holl ddarpariaethau wrth i staff yn y lleoliadau hyn addasu i'r rheoliadau newydd.

**Cwestiwn 9:** Gyda chyfeiriad penodol at hyfforddiant pellach, ydych chi'n cytuno â'r canlynol:

i. y gofyniad arfaethedig i wneud 18 awr o hyfforddiant pellach bob blwyddyn?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** [ ]

ii. bod cynnwys hyfforddiant pellach heb ei achredu, a'i fod yn cael ei gymeradwyo naill ai gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu awdurdod lleol yng Nghymru?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** [ ]

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 9, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Mae'r trefniadau hyfforddi hyn yn ymddangos yn fanwl ac addas. |

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r Rheoliadau drafft alluogi awdurdodau lleol i weithio ar y cyd â'u partneriaid i roi trefniadau rhanbarthol neu genedlaethol ar waith ar gyfer cymeradwyo Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** ☐

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 10, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Dylai'r Rheoliadau drafft alluogi awdurdodau lleol i weithio ar y cyd â'u partneriaid i roi trefniadau rhanbarthol neu genedlaethol addas ar waith ar gyfer cymeradwyo Proffesiynolion Galluedd Meddyliol Cymeradwy. |

**Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd) (Cymru) 2022**

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau drafft ar fonitro ac adrodd yn glir a digonol?

**Cytuno'n Gryf** x

**Cytuno Ychydig** ☐

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 11, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Mae'r Rheoliadau drafft ar fonitro ac adrodd yn glir ac yn adlewyrchu rolau strategol ehangach yr arolygiaethau mewn monitro ac adrodd ar arweinyddiaeth ac arferion ar draws y sectorau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg yng Nghymru.

O safbwynt addysgol, rydym yn croesawu'r rôl newydd hon ac wedi cael ein cynnwys yn llawn mewn datblygu'r broses a'r strategaeth monitro ac adrodd.

**Cwestiwn 12:** Os oes trefniant awdurdodedig ar waith mewn annedd breifat neu mewn rhan o adeilad a ddefnyddir fel annedd breifat, rhaid i gorff monitro ofyn am ganiatâd cyn ymweld. Hefyd, bydd corff monitro yn gofyn am gydsyniad gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal cyn cyfarfod ag ef / â hi. Os nad oes gan unigolyn sy'n derbyn gofal y gallu i gydsynio, yna bydd angen gwneud penderfyniad er lles pennaf am gyfarfod o'r fath. Gallai hyn gynnwys y cyrff monitro. Ydych chi'n cytuno bod y dull wedi'i seilio ar gydsyniad yr ydym yn ei gynnig i fonitro ac adrodd yn adlewyrchu hawliau pobl ac yn darparu diogeliadau digonol?

| | |
|---|---|
| **Cytuno'n Gryf** | X |
| **Cytuno Ychydig** | |
| **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | |
| **Anghytuno Ychydig** | |
| **Anghytuno'n Gryf** | |

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 12, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Rydym yn ystyried bod yr ymagwedd wedi'i seilio ar gydsyniad at fonitro ac adrodd yn adlewyrchu hawliau pobl ac yn darparu diogeliadau digonol. Mae'n debygol y bydd yna ychydig iawn o achosion ble byddwn yn cymryd rhan yn yr agwedd hon ar y broses, er enghraifft ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

**Cwestiynau ehangach yr ymgynghoriad ynglŷn â gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru**

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno bod y Rheoliadau'n amddiffyn hawliau'r unigolyn a'r defnyddwyr gwasanaeth?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** [ ]

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 13, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Mae'r rheoliadau'n diogelu hawliau'r unigolyn a'r defnyddwyr gwasanaeth. Maent yn adlewyrchu newid cadarnhaol yn hawliau'r unigolyn sy'n derbyn gofal. |

**Cwestiwn 14:** Rydym ni hefyd yn ymgynghori ar Femorandwm Esboniadol drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhoi amcangyfrifon o gostau a buddion ariannol / effeithiau gweithredu'r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o gostau ariannol a buddion / effeithiau'r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 14, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r asesiad o gostau ariannol a buddion / effeithiau'r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. |

**Cwestiwn 15:** Fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi cynnwys eitemau data arfaethedig ar gyfer Set Ddata Ofynnol Genedlaethol y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid – sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno â'r eitemau data sydd wedi'u cynnwys yn Set Ddata Ofynnol Genedlaethol ddrafft y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar gyfer Cymru?

**Cytuno'n Gryf** X

**Cytuno Ychydig** ☐

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 15, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r eitemau data sydd wedi'u cynnwys yn Set Ddata Ofynnol Genedlaethol ddrafft y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar gyfer Cymru. Rydym wedi cael ein cynnwys yn llawn mewn datblygu'r Set Ddata Ofynnol Genedlaethol ar gyfer Cymru i sicrhau bod eitemau data yn adlewyrchu'r safbwynt addysgol. |

**Cwestiwn 16:** Rydym wedi cyhoeddi Asesiad drafft o’r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer ymgynghori arno ochr yn ochr â’r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Ydych chi’n cytuno â’n hasesiad o effeithiau’r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar hawliau plant a amlinellir yn y CRIA?

**Cytuno’n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno’n Gryf** [ ]

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy’n cefnogi’ch ymateb i gwestiwn 16, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â’r asesiad o effeithiau’r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar hawliau plant a amlinellir yn y CRIA. |

**Cwestiwn 17:** Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad drafft o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer ymgynghori arno ochr yn ochr â’r Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru a’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Ydych chi’n cytuno â’n hasesiad o effeithiau’r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar y rhai â nodweddion gwarchodedig?

**Cytuno’n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 17, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Rydym yn cytuno â'r asesiad o effeithiau'r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn amodol ar adolygiadau trylwyr o'r data yn unol â'r manylion uchod.

**Cwestiwn 18:** Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ar wahân ar Gynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi – ac mae crynodeb o hyn wedi'i gynnwys yn y RIA. Ydych chi'n cytuno y bydd y Cynllun Gweithlu a Fframwaith Hyfforddi Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn hyrwyddo ac yn ymgorffori cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn?

**Cytuno'n Gryf** x

**Cytuno Ychydig** ☐

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** ☐

**Anghytuno Ychydig** ☐

**Anghytuno'n Gryf** ☐

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 18, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Mae'n ymddangos bod Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid: Cynllun y Gweithlu a'r Fframwaith Hyfforddi yn gyfrwng buddiol i hyrwyddo ac ymgorffori cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn mewn lleoliadau.

Rydym yn croesawu'r grwpiau cymhwysedd a gynlluniwyd a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a nodwyd o fewn y Triongl Gweithlu a Hyfforddiant. Rydym yn cytuno

y bydd y rhain yn allweddol mewn rheoli Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn llwyddiannus mewn lleoliadau addysgol.

Gallai fod cyfleoedd i adeiladu ar hyfforddiant a gynhelir ar gyfer y gweithlu addysg ar arferion yn canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o weithredu'r diwygiadau ADY.

**Cwestiwn 19:** Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer ymgynghori arno ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft i Gymru a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar y Gymraeg?

**Cytuno'n Gryf** [x]

**Cytuno Ychydig** [ ]

**Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** [ ]

**Anghytuno Ychydig** [ ]

**Anghytuno'n Gryf** [ ]

Os oes gwybodaeth yr hoffech ei darparu sy'n cefnogi'ch ymateb i gwestiwn 19, dylech gynnwys y wybodaeth hon yma.

Mae'n ymddangos bod yr asesiad o'r Rheoliadau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar y Gymraeg yn gywir.

**Cwestiwn 20**: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft i Gymru i gefnogi gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Mae gan yr effeithiau ar y Gymraeg y potensial i fod yn gadarnhaol, fel yr amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 21**: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y Rheoliadau drafft arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau

cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| Rydym yn cytuno bod y rheoliadau presennol yn sicrhau bod y Gymraeg a’r Saesneg yn cael eu trin yr un mor ffafriol â’i gilydd. |

**Cwestiwn 22**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:

Nodwch yma:

| |
|---|
| |

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma:**

☐